


Y Gorffennol Pell





Golff Troed

Darllenwch y sgwrs yma rhwng Chris a Jo.

Sgript

Chris: Beth wnest ti ddydd Sadwrn?

Jo: Es i i chwarae golff [troed](#).

Chris: O neis iawn. Ble?

Jo: Yn Rhuthun.

Chris: Pryd est ti?



RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL

Jo: Yn y bore - am ddeg o'r gloch.

Chris: Gyda pwy est ti?

Jo: Gyda'r teulu.

Chris: Beth [yn union](#) wnest ti?

Jo: Es i i'r ganolfan golff [troed](#). Cerddais i [ar hyd](#) y cwrs a chwaraeais i golff [troed](#).

Chris: Sut mae chwarae?

Jo: Mae golff [troed yn debyg i](#) golff - ond rhaid cicio pêl fawr i mewn i [dwl](#) mawr [yn lle taro](#) pêl fach i mewn i [dwl](#) bach.

Chris: Ydy'r cwrs yn debyg i gwrs golff?

Jo: Ydy. Mae coed, [bryniau](#) bach a dŵr ar y cwrs - fel cwrs golff.

Chris: Beth wisgaist ti?



RHIFYN 17 – Y GORFFENNOL PELL

Jo: Gwisgais i jîns, crys T a treinyrs.

Chris: Fwynheuaist ti?

Jo: Do, roedd hi'n wych. Mae golff troed yn hwyl.

Geirfa

troed foot

yn union exactly

ar hyd along

yn debyg i similar to, like


twll hole

RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL

yn lle	instead (of)
taro	hit
bryniau	hills

llun gan [CK GOLF / CC GAN](#)

Baner: By Footgolfworld (Own work) [CC BY-SA 4.0 (<http://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>)], via Wikimedia Commons





Nos Sadwrn


Edrychwch:

Roeddwn i wedi ... = I had (+ verb) ...

Roedden ni wedi ... = we had (+ verb) ...

Roeddwn i wedi bod yn ... = I had been ...

Roedden ni wedi bod yn ... = we had been ...



Roedd hi'n ddeg o'r gloch y nos.



Roeddwn i wedi bod i'r parc i wrando ar y band yn canu.



Roeddwn i'n cerdded i lawr y ffordd yn hapus.



Yn sydyn, gwelais i ddyn yn rhedeg allan o'r banc.



Neidiodd y dyn i mewn i gar mawr llwyd.



Gyrrodd y car i ffwrdd.




Ffoniais i 999.



RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL

Geirfa	
diwethaf	last
yn sydyn	suddenly
llwyd	grey
i ffwrdd	away



Rasio'r trê'n

Awst 2016

Dw i'n cael amser ffantastig yn Nhywyn, Gogledd-orllewin Cymru. Wythnos [diwetha](#), rhedais i ras [yn erbyn](#) y trê'n.

Roedd 500 o bobl yn rhedeg. Roedd rhai o Brydain ond roedd rhai wedi teithio o Seland Newydd, Awstralia, Hong Kong, Affrica ac America.

Roedd y ras yn 14 milltir – o'r orsaf yn Nhywyn i Abergynolwyn ac yn ôl. Roedd y ras yn gyffrous iawn achos roedd y cwrs yn [anodd](#) ac roedd pobl yn [gweiddi](#), "Rhedwch!", "Brysiwch", "[Daliwch ati!](#)" [Curais](#) i'r trê'n – rhedais i mewn 1 awr a 50 munud.

Dw i eisiau gwneud hyn y flwyddyn nesaf eto.

Wela i chi ddydd Sadwrn.

Cariad

Chris



Geirfa	
diwetha	last
yn erbyn	against
anodd	difficult
gweiddi	(to) shout
Daliwch ati!	Keep going!
curo	(to) beat



Siom!

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Cyn gwyllo, dyma ychydig o help os ydych chi eisiau help.

Geirfa	
siom	disappointment
siomedig	disappointed
edrych ymlaen at	(to) look forward to
pabell	tent
sach gysgu	sleeping bag
gobennydd	pillow
ar gyfer	for



Sgript

Aled: Sut wyt ti?

Carwyn: Dw i'n [siomedig](#).

Aled: [Siomedig?](#)

Carwyn: Dw i'n [siomedig](#). Dw i'n [siomedig](#) iawn.

Aled: Pam?

Carwyn: Wel, es i i gig nos Wener.

Aled: Gwych.

Gwranda ...

HWYL YN Y CAEAU

DEWCH I WERSYLLA!

DEWCH I FWYNHAU!

DEWCH I GAEL HWYL!

Carwyn:

FFERM YR HAFOD

Nos Wener-Nos Sul, Mehefin 9-11

Cofiwch eich pabell a'ch welis.

Roeddwn i'n edrych ymlaen ... bandiau ... canu da ... hwyl ...
ffrindiau ... Ond ...



RHIFYN 17 – Y GORFFENNOU PELL

Aled: “Ond ...?”

Carwyn: O ... roeddwn i wedi bod yn [edrych ymlaen at](#) y gig.

Aled: Wrth gwrs.

Carwyn: Roeddwn i wedi pacio [pabell](#) ... [sach gysgu](#) ... [gobennydd](#) ... a Fflyffi.

Aled: Ardderchog!

Carwyn: Roeddwn i wedi prynu bin – i gario popeth i’r [pabell](#).

Aled: Syniad da.

Carwyn: Roeddwn i wedi prynu welis – [ar gyfer](#) y mwd.

Aled: Gwych!

Carwyn: Roeddwn i wedi prynu dillad newydd – dillad “gigio”.

Aled: O ... ie, wel ... mmm ...

Carwyn: Roeddwn i wedi prynu cot law ... ac ymbarél – [ar gyfer](#) y glaw.

Aled: Da iawn.

Carwyn: OND ...

Aled: Ond?



RHIFYN 17 – Y GORFFENNOL PELL

Carwyn: Roedd hi'n braf ... roedd hi'n heulog ... roedd hi'n boeth iawn.

Aled: O? ... Ie, wel grêt!

Carwyn: Doeddwn i **ddim** wedi pacio crys T ... a siorts.

Aled: O!

Carwyn: Doeddwn i **ddim** wedi pacio eli haul.

Aled: O!

Carwyn:
Doeddwn i **ddim** wedi pacio fflip fflops.

Aled: O!!

Carwyn: A ...

Aled: Ie?

Carwyn: Problem arall.

Aled: Beth?

Carwyn: Doedd dim gŵyl.

Aled: Beth? Doedd dim gŵyl?




RHIFYN 17 – Y GORFFENNOL PELL

Carwyn: Doedd dim gŵyl. Dim bandiau ... dim canu da ... dim hwyl ... dim ffrindiau ...

Aled: Pam?

Carwyn: Sioe **anifeiliaid** oedd hi - dim gig!

Aled: O diar!






HWYL YN Y CAEAU

DEWCH I WERSYLLA!
DEWCH I FWYNHAU!
DEWCH I GAEL HWYL!

---- FFERM YR HAFOD ----



Nos Wener-Nos Sul,
Mehefin 9-11

Cofiwch eich pabell
a'ch welis.



Edrych yn ôl dros y flwyddyn

Edrychwch:

Roeddwn i wedi ...

I had (+ verb) ...

Roedden ni wedi ...


We had (+ verb) ...

Roeddwn i wedi bod yn ...

I had been ...


Roedden ni wedi bod yn ...

We had been ...







Darn o ddyddiadur Alys




Darn o ddyddiadur John



Darn o ddyddiadur y Pennaeth



Darn o ddyddiadur yr athro Dylunio a Thechnoleg



Darn o ddyddiadur Chris

Ym mis Mawrth, aeth y dosbarth i Lundain am y penwythnos.

Roeddwn i wedi bod yn safio arian ers blwyddyn ac roedd gen i £189.76.

I gael yr arian, roeddwn i wedi helpu Nain yn yr ardd (£5.00 bob wythnos); roeddwn i wedi golchi'r car i Dad (£3.50 bob wythnos) ac roeddwn i wedi safio fy arian pen-blwydd a fy arian Nadolig.

Dechreuon ni o'r ysgol am wyth o'r gloch y bore ar Fawrth 3. Roeddwn i wedi gwneud brechdanau ac roeddwn i wedi pacio creision, afal, pop a bariau siocled cyn gadael.

Dros y penwythnos, aethon ni i weld Palas Buckingham, Big Ben, Pont Llundain a Hampton Court achos roedden ni wedi bod yn dysgu am y Tuduriaid yn yr ysgol.

Roedd y penwythnos yn wych achos ces i hwyl gyda ffrindiau ac aethon ni i leoedd diddorol iawn! Daethon ni adre ar y nos Sul wedi blino'n lân.

Geirfa	
darn	piece, passage
ymarfer	(to) train
yn galed	hard
astudio	(to) study
cyn	before
gadael	(to) leave
y Tuduriaid	the Tudors
lleoedd	places
wedi blino'n lân	exhausted



Pizzas

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Dyma ychydig o help i chi os ydych chi eisiau help.

Geirfa	
bwyty	restaurant
Eidalaidd	Italian
cyntaf	first
brenin	king

RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL

brenhines queen

iddyn nhw for them

wrth ei bodd delighted

ar ben on top of

cyn hyn before this

Gwlad Groeg Greece

Rhufain Rome

sbeisys spices

olew olewydd olive oil

dim ots never mind

Gwylwch a gwrandewch!

Sgript	
Cyflwynydd:	Croeso i fwyty Eidalaid <i>Alitalia</i> . Mae bwyd Eidalaid blasus yma.
	Ydych chi'n hoffi pizza? Pa fath? Beth ydych chi'n hoffi ar bizza? Beth am ...? ham? salami? tomatos? madarch? winwns ... neu ... nionod? tiwna? pinafa? Mmm ... - blasus iawn.
	Ond o ble mae pizzas yn dod? Mae rhai pobl yn dweud ...: O Naples.
	Pwy oedd y person cyntaf i wneud pizza? Mae rhai pobl yn dweud ...: Raffaele Esposito
	Ond pwy oedd Raffaele Esposito?

RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL

Wel, roedd e'n byw yn Naples, yn yr Eidal.

Roedd e'n rhedeg [bwyty](#) o'r enw Pizzeria di Pietro.

Yn 1889, daeth y [Brenin](#) Umberto y [Cyntaf](#) a'r [frenhines](#) Margherita i Naples.

Coginiodd Esposito bizza arbennig [iddyn nhw](#) – pizza gyda thomatos, caws mozzarella a basil ar y top ... Roedd y pizza yn goch, gwyn a gwyrdd – lliwiau baner yr Eidal ... Roedd y [frenhines wrth ei bodd](#) gyda'r pizza a dyna ddechrau'r pizza Margherita – a pizzas eraill hefyd.

OND ...

... mae rhai pobl yn dweud bod pobl [Gwlad Groeg](#) a [Rhufain](#) wedi bod yn bwyta bara fflat gyda [sbeisys cyn hyn](#).

[Dim ots](#) ble dechreuodd y pizza, dw i'n gwybod un peth – mae'n flasus.

Mmm – blasus IAWN!



Stori wir

Edrychwch ar [y ffilm yma](#).

Dyma'r stori - stori wir!

Haf 2016 ... dydd Gwener oedd hi, ac roedd hi'n boeth iawn.

Roedd Sadie a Peppi, dau gi bach, yn eistedd mewn car yn y maes parcio tu allan i siop Walmart yn Wayne, West Virginia, Gogledd America. Roedd Fatima Rowe, [perchennog](#) Sadie a Peppi, [wedi mynd](#) i mewn i'r siop i siopa.

Achos y tywydd poeth, [doedd Fatima ddim wedi stopio](#) injan y car – roedd hi eisiau i'r [system awyru](#) oeri'r cŵn.

Pan oedd hi yn y siop, dechreuodd y car symud i lawr y bryn at y siop. Troiodd Sadie yr [olwyn lywio](#) a gyrodd hi'r car!

Stopiodd y car ar ôl [taro](#) i mewn i [biler](#) o flaen y siop. Rhedodd llawer o bobl at y car a gwelon nhw Peppi yn [pwysu](#) botwm i agor ffenest y car.

Daeth Fatima allan o'r siop a gweld y car. Cafodd hi sioc.

Yna, gyrodd Sadie, Peppi a Fatima adre o'r siop. Pwy oedd yn gyrru [tybed](#)?



RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL



Geirfa

yn ystod

during

perchennog

owner

roedd ... wedi mynd ...

... had gone ...


doedd ... ddim wedi stopio

... had not stopped



RHIFYN 17 – Y GORFFENNOL PELL

system awyru	air conditioning
olwyn lywio	steering wheel
taro	(to) knock
piler	pillar
pwyso	(to) press
tybed	I wonder





Rhedeg ... rhedeg ... rhedeg

Mae Tomos Land yn 15 oed ac mae o'n mynd i Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst. Mae o ym 10.10.2016.

Mae o'n mwynhau rhedeg, beicio mynydd a beicio ffordd, chwaraeon tîm fel pêl-droed a rygbi.

Mae o'n mwynhau rhedeg yn fawr iawn ac mae o'n rhedeg mewn llawer o rasys pwysig.

Dyma rai o'r rasys:

Enw'r ras	Ble	Blwyddyn	Safle
British Cross Challenge (Cyfres o rasys)	Lerpwl, Caerdydd, Milton Keynes, Birmingham ac Antrim, Gogledd Iwerddon	2016	Yn y 20 cyntaf ym mhob ras. Roedd tua 400 - 500 o redwyr ym mhob ras ac roedd Tomos yn rhedeg yn erbyn bechgyn hŷn na fo.



RHIFYN 17 – Y GORFFENNOL PELL

Ras [draws gwlad](#)
ysgolion Cymru

Aberhonddu

2016

seithfed (7fed)

Ras yr Wyddfa

Llanberis

Bob
blwyddyn
o 7 oed tan
13 oed

cyntaf (1af) (6
gwaith)
ail (2il) (unwaith)

[Pencampwriaeth](#)

Rhedeg
Mynyddoedd
Cymru

Llanberis - Eryri

2016

cyntaf (1af)

[Pencampwriaeth](#)

Rhedeg
Mynyddoedd
Prydain

Church
Stretton, Lloegr

2016

ail (2il)



Siarad â Tomos

Pryd dechreuast ti redeg?

Fy ras gyntaf oedd Ras y Gogarth, Llandudno, pan oeddwn i'n 6 oed. Gorffennais i'n nawfed (9fed). Roeddwn i'n [wên o glust i glust](#)!

Ym Mlwyddyn 3 enillais i un o rasys yr Urdd – Ras y Faenol. Roedd disgyblion Conwy, Gwynedd a Môn yn rhedeg. Roeddwn i'n [wên o glust i glust](#) eto!

Ym Mlwyddyn 9, [ymunais i â](#) chlwb athletau Menai, ym Mangor, a dechreuais i redeg [o ddifri](#).

Sut wyt ti'n paratoi ar gyfer ras?

Dw i'n cerdded y cwrs cyn y ras achos dw i eisiau gweld ble mae'r [leoedd](#) anodd. Dw i'n hoffi gwrando ar gerddoriaeth ar y ffôn pan dw i'n paratoi.

Siarada am un ras yn arbennig os gweli di'n dda.

Ym mis Ionawr 2016, es i i redeg ras yn Antrim, Gogledd Iwerddon. Arhosodd dau ffrind (Cai ac Eden) a fi mewn gwesty yn Belfast.

Ar fore'r ras, ces i dost a dŵr i frecwast. Roeddwn i'n [wedi cynhyrfu](#). Doedd neb yn siarad yn y car ar y ffordd i'r ras.

Pan es i at y [llinell gychwyn](#), roeddwn i'n teimlo nerfus dros ben. Roedd hi'n oer iawn – roedd hi'n rhewi ac roedd hi'n dechrau bwrw eira.

Gorffennais i'r ras yn ddeunawfed (18fed), dim fy ras orau ond roeddwn i'n hapus.

Pam wyt ti'n mwynhau rhedeg?

Dw i'n mwynhau achos dw i'n mynd i [leoedd](#) newydd a dw i'n gwneud ffrindiau newydd.

Oes rhywbeth doniol wedi digwydd i ti?



RHIFYN 17 – Y GORFFENNOL PELL

Collais i fy esgidiau unwaith pan oeddwn i'n rhedeg a gorffennais i'r ras heb esgidiau.

Beth wyt ti'n gobeithio?

Un diwrnod, hoffwn i [gynrychioli'r Deyrnas Unedig](#). Dw i'n gobeithio cynrychioli Cymru yn y [bencampwriaeth](#) Ewropeaidd hefyd.



Geirfa

cyfres

series



hŷn	older
traws gwlad	cross country
pencampwriaeth	championship
yn wên o glust i glust	like a Cheshire cat; smiling from ear to ear
ymuno â	(to) join
o ddifri	seriously
lleoedd	places
wedi cynhyrfu	excited, agitated
llinell gychwyn	starting line
cynrychioli	(to) represent




RHIFYN 17 – Y GORFFENNOL PELL

y Deyrnas Unedig

the United Kingdom

gobeithio

(to) hope





I gopa mynydd Kilimanjaro

Rydych chi'n mynd i wrando ar ddau berson yn siarad.

Yn gyntaf, dyma rai geiriau i'ch helpu chi, os ydych chi eisiau help.

Geirfa	
achos da	good cause
uchaf	highest
paratoi	(to) prepare
cadw'n heini	(to) keep fit

RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL

ymarfer	(to) exercise
felly	therefore
cryf	strong
copa	summit
gorau	best

Sgript

Cyflwynydd: Croeso i raglen arall o “Bobl bach!”.
Heddiw, yn y stiwdio, mae Ceri Pryce. Bore da, Ceri.

Ceri: Bore da.

Cyflwynydd: Pwy ydy Ceri Pryce?
Wel, mae hi wedi dringo mynydd Kilimanjaro, yn Affrica.
Pam?
I godi arian at [achos da](#).
Croeso i’r stiwdio, Ceri.



RHIFYN 17 – Y GORFFENNOL PELL

Ceri: Diolch yn fawr.

Cyflwynydd: Pryd aethoch chi i fyny Kilimanjaro?

Ceri: Ym mis Chwefror.

Cyflwynydd: Pam Kilimanjaro?

Ceri: Wel, dyma fynydd [uchaf](#) Affrica. Mae'r mynydd yn bum mil, wyth cant naw deg pump metr.

Cyflwynydd: Wrth gwrs. ... Sut oeddech chi wedi [paratoi](#)?

Ceri: Roedden ni wedi bod yn [cadw'n heini](#).

Cyflwynydd: [Cadw'n heini](#) ... sut?

Ceri: Roedden ni wedi cerdded ...

Cyflwynydd: .. o, cerdded ...

Ceri: ... ac roedden ni wedi beicio ...

Cyflwynydd: ... beicio ...

Ceri: ... ac roedden ni wedi bod yn [ymarfer](#) yn y ganolfan hamdden ...

Cyflwynydd: ... [ymarfer](#) yn y ganolfan hamdden. Roeddech chi'n heini iawn, [felly](#).

Ceri: Wrth gwrs.

Cyflwynydd: Beth oeddech chi wedi pacio?

RHIFYN 17 – Y GORFFENNOU PELL

Ceri: Roedden ni wedi pacio esgidiau cerdded da – esgidiau cerdded **cryf** iawn – a dillad cerdded – trowsus da, fflîs, sanau cerdded da. Roeddwn i wedi pacio camera hefyd.

Cyflwynydd: Sut oedd y daith i [gopa](#) Kilimanjaro?


Ceri: Anodd – ond gwych!

Cyflwynydd: Gwych?

Ceri: Roedd sefyll ar [gopa](#) Kilimanjaro yn anhygoel – y profiad [gorau](#) yn y byd. Ffantastig!

Cyflwynydd: “Ffantastig!” Da iawn ... Ceri, beth am wrando ar ddarn o gerddoriaeth ... ac yna, byddwn ni’n dod yn ôl i siarad gyda chi eto.

Ceri: lawn.





Taith i blaned arall

Darllenwch y darn yma gan Jo.

9 Ebrill 2025

Wel, dw i yma! Dw i'n byw ar blaned arall! Dw i'n teimlo'n hapus, ond yn nerfus hefyd achos mae [popeth](#) yn newydd iawn.

Teithion ni mewn [llong ofod](#) am tua saith mis ac roedd y daith yn "ddiddorol" iawn. Roedden ni'n bwyta bwyd "diddorol iawn" hefyd. Beth? Wel, bwyd mewn tuniau a bwyd [wedi sychrewi](#) – ych a fi! Dw i ddim yn hoffi bwyd [wedi sychrewi](#) achos mae e'n ddiflas iawn! Mae'n well 'da fi fwyd ffres! Roedd rhaid i ni gadw'n heini am dair awr bob dydd ac roedd hyn yn hwyl. Doedd dim [cawod](#) na bath ar y [llong ofod](#) ac felly roedd rhaid i ni ddefnyddio *wet wipes* i ymolchi bob dydd. Roeddwn i'n teimlo'n [frwnt](#) iawn a dweud y gwir.

Teithion ni ... teithion ni ... teithion ni ... [yn bellach](#) ... ac [yn bellach](#) o'r [Ddaear](#) bob dydd.

Yna, ym mis Awst, [cyrhaeddwn ni](#)'r blaned goch. Sut oeddwn i'n teimlo? Roeddwn i'n ofnus iawn ond roedden ni wedi [paratoi](#)'n dda ar gyfer y daith, felly doedd dim problemau.



RHIFYN 17 – Y GORFFENNOU PELL

[Cyn gadael](#), roedden ni wedi dysgu sut i fyw ar y blaned yma a sut i [dyfu](#) bwyd. Roeddwn i wedi cael gwersi coginio achos dw i ddim yn dda iawn yn y gegin! Roedden ni wedi cael dillad arbennig – dillad arbennig iawn i gerdded tu allan a dillad “normal” i fyw tu mewn yn ein cartref newydd. Hefyd, roedden ni wedi [cwrdd](#) â’n ffrindiau newydd – pobl eraill o’r [Ddaear sy’n byw](#) gyda ni ar y blaned yma.

Mae byw yma'n hwyl. Dw i'n gweld pethau newydd bob dydd a dw i'n dysgu sut i fyw yma. Dw i'n hapus iawn.

Geirfa	
popeth	everything
llong ofod	spaceship
wedi sychrewi	freeze-dried
cawod	shower
brwnt = budr	dirty



RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL

yn bellach	further
y Ddaear	the Earth
cyrhaeddon ni	we arrived (at), we reached
cyn gadael	before leaving
paratoi	(to) prepare
tyfu	(to) grow
cwrdd = cyfarfod	(to) meet
sy'n byw	who live



Dewr!

Yn y darn nesaf mae hanes pedwar [caplan](#).

Beth ydy [caplan](#)?

Ficer neu weinidog (*minister*) mewn capel preifat neu ar [long](#).

Dyma'r Dorchester - un o [longau](#) Gogledd America.





Darllenwch y dyddiadur yma gan ddyn ar y [llog](#) yn 1943.

03 Chwefror 1943

Roeddwn i ar yr SS Dorchester ac roedden ni'n teithio mewn confoi gyda dwy [llog](#) arall. Roedden ni wedi [gadael Efrog Newydd](#) ar Ionawr 23, a nawr roedden ni'n teithio tuag at [yr Ynys Las](#). Roedd tua 900 o bobl ar y llog.

Roedd y capten yn poeni achos roedd [llogau tanfor](#) yr Almaen o dan y môr.

Am bum munud i un y bore, [saethodd](#) llog danfor dorpedo at ein [llog](#) ni. Yn sydyn, doedd dim [trydan](#). Roedd pobl yn [gweiddi](#). Roedd rhai'n rhedeg. Roedd rhai'n cerdded. Roedd rhai o'r dynion mewn panig. Roedd y [llogyn](#) mynd i lawr!

Ond doedd y pedwar [caplan](#) - George L. Fox, Alexander D. Goode, John P. Washington a Clark V. Poling - ddim mewn panig. Doedden nhw ddim yn [gweiddi](#). Helpon nhw'r dynion o'r [llog](#) i mewn i'r [cychod achub](#). Roedden nhw'n [ddewriawn](#).

Doedd dim [siaced achub](#) i bawb. Rhoiodd y pedwar [caplaneu siaced achub](#) nhw i bedwar dyn arall. [Dewr](#) iawn!



Aeth y [llong](#) a'r pedwar [caplan](#) i lawr i wely'r môr. Roedden nhw wedi helpu pobl eraill. Roedden nhw wedi [achub](#) pobl eraill.

Yn 1948, roedd stamp yn America yn cofio am y dynion yma.



Mae cerddoriaeth yn cofio'r dynion hefyd, *Light Eternal* gan James Swearingen.

Mae pobl yn cofio am y pedwar [caplan](#) ar Chwefror 3 bob blwyddyn – dyma **Dydd y Pedwar Caplan** yn America.



RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL



Geirfa	
dewr	brave
llongau	ships
llong	ship
yr Ynys Las	Greenland
gadael	(to) leave

RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL

Efrog Newydd	New York
--------------	----------

llongau tanfor	submarines
----------------	------------

saethodd	shot
----------	------

trydan	electricity
--------	-------------

gweiddi	(to) shout
---------	------------

caplan	chaplain
--------	----------

cychod achub	lifeboats
--------------	-----------

siaced achub	lifejacket
--------------	------------

achub	(to) save
-------	-----------

Clogyn yr Wyddgrug

Amser maith yn ôl, roedd hen [wraig](#) yn cerdded ar y ffordd ger Bryn yr Ellyllon, yn yr Wyddgrug, yn y nos. Roedd hi wedi clywed storïau [ysbrydion](#) am yr ardal ond doedd hi ddim yn teimlo'n ofnus achos roedd hi'n cerdded yma yn aml.

Yn sydyn, gwelodd hi berson ifanc yn croesi'r ffordd. Roedd y person ifanc yn gwisgo [clogyn](#) o [aur](#). Cerddodd y person ifanc i mewn i'r bryn – ie, **i mewn i'r bryn!**

Yn 1833, roedd gweithwyr yn gweithio ger Bryn yr Ellyllon. Un diwrnod, ffeindion nhw [fedd](#) yn y bryn ac yn [bedd](#) roedd [sgerbwd](#), [gleiniau](#) a [chlogyn](#) hardd o [aur](#).

Y [sgerbwd](#):

- Pwy oedd y [sgerbwd](#)?
Does neb yn gwybod.

Y [gleiniau](#) – o ble?

- Does neb yn gwybod o ble roedd y [gleiniau](#) wedi dod. O ardal y Baltig, efallai. Mae'n bosib bod pobl o Ewrop wedi dod i Ogledd Cymru i [werthu](#) neu [gyfnewid nwyddau ambr](#) am [nwyddau efydd](#). Roedd pobl yn teithio o Ewrop i Ogledd Cymru yr amser yma.

Y [clogyn](#):

- Faint ydy oed y [clogyn](#)?
Mae'r [clogyn](#) yn hen iawn, iawn - tua 3700 oed. Mae'n dod o'r [Oes Efydd](#).
- Pwy oedd wedi gwisgo'r [clogyn](#)?
Does neb yn gwybod, ond person 'bach' neu berson ifanc mae'n siŵr. Merch ifanc efallai.
- Pwy oedd wedi gwneud y [clogyn](#)?
Does neb yn gwybod, ond mae'r [clogyn](#) yn hardd iawn ac felly roedd y person yna'n glyfar iawn.
- Beth oedd y [clogyn](#)?
[Clogyn](#) ar gyfer seremoni oedd o efallai, ond does neb yn siŵr.



RHIFYN 17 – Y GORFFENNOL PELL

Mae'r [clogyn](#) yn arbennig iawn. Does dim [clogyn](#) debyg yn Ewrop ac felly mae hi'n [saff](#) yn yr [Amgueddfa Brydeinig](#) yn Llundain nawr.

Mae copi o'r [clogyn](#) yn yr [amgueddfa](#) yn yr Wyddgrug, ond mae pawb yn gallu ei gweld hi heddiw.

Ble? Ar stamp arbennig gan Swyddfa'r Post – stamp £1.52.

Geirfa	
clogyn	cape
amser maith yn ôl	a long time ago
gwraig	woman
ysbrydion	ghosts
aur	gold
bedd	grave
sgerbwdd	skeleton



RHIFYN 17 – Y GORFFENOL PELL

gleiniau	beads
gwerthu	(to) sell
cyfnewid	(to) exchange
nwyddau	goods
ambr	amber
efydd	bronze
yr Oes Efydd	the Bronze Age
saff	safe
Amgueddfa Brydeinig	British Museum
amgueddfa	museum